P 08

Ymchwiliad i'r Adolygiad Blaenoriaethau ar gyfer y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Inquiry into the Priorities for the Health, Social Care and Sport Committee

Ymateb gan: Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Response from: Older People's Commissioner

Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
☎ 029 2044 5030
🖷 08442 64 06 80
www.olderpeoplewales.com

Cambrian Buildings
Mount Stuart Square
Cardiff CF10 5FL

Adeiladau Cambrian
Sqwâr Mount Stuart
Caerdydd CF10 5FL

Dai Lloyd AC
Cadeirydd
Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Caerdydd
CF99 1NA

26 Awst 2016

Annwyl Dai Lloyd AC

**Blaenoriaethau ar gyfer y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon**

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'r cyfle i roi sylwadau ar flaenoriaethau'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon.

Rwy'n croesawu'r blaenoriaethau y mae'r Pwyllgor eisoes wedi'u pennu, llawer ohonynt yn berthnasol iawn i fywydau pobl hŷn ledled Cymru. Ond, mae pedwar maes yn benodol sydd â chysylltiad agos â'm blaenraglen waith fy hun a'm Fframwaith ar gyfer Gweithredu, a byddwn yn rhoi cefnogaeth frwd i waith gan y Pwyllgor yn y meysydd hyn.

**Integreiddio gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol:**

Mae gwaith rwyf wedi'i wneud yn y gorffennol ar integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a'r effaith ar bobl hŷn ar gael yma.

**Gofal Sylfaenol:**

Ar hyn o bryd, rwy'n cyflawni gwaith i ddeall mynediad pobl hŷn at wasanaethau meddygon teulu a'u profiadau gyda'r gwasanaethau hyn, drwy sesiynau trafodaeth grŵp a holiadur. Byddwn yn cyhoeddi adroddiad yn gynnar yn 2017. Felly, rwy'n teimlo y byddai gwaith gan y Pwyllgor yn y maes hwn yn berthnasol iawn ar ôl i'm hadroddiad gael ei gyhoeddi.

Iechyd ar Waith
Cyrraedd y Nod / The Corporate Standard
Health at Work

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

☎ 029 2044 5030
08442 64 06 80
www.olderpeoplewales.com

Cambrian Buildings
Mount Stuart Square
Cardiff CF10 5FL

Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd CF10 5FL

**Defnyddio meddyginiaeth gwrthseicotig mewn cartrefi gofal:**

Mae'r Pwyllgor yn iawn yn tynnu sylw at y pryderon a godais am y defnydd amhriodol o feddyginiaethau gwrthseicotig yn fy adolygiad o gartrefi gofal . Mae'r cynnig i'r Pwyllgor asesu maint y broblem, ac ystyried atebion posibl i'w groesawu. Byddaf yn gwneud gwaith dilynol ar yr adolygiad o gartrefi gofal yn ystod y flwyddyn nesaf.

**Unigrwydd ac unigedd ymhlith pobl hŷn:**

Mae'r Pwyllgor yn iawn i nodi'r pryderon a godais am lefelau unigrwydd ac unigedd ymhlith pobl hŷn, a ddylai gael ei ystyried yn fater o bwys yng nghyswllt iechyd y cyhoedd. Mae unigrwydd ac unigedd yn un o bum prif elfen y rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru yr wyf yn gadeirydd arni. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma.

Dilynwch y linciau canlynol os gwelwch yn dda i fy mhapur briff sy'n amlinellu fy mlaenraglen waith, fy Adroddiad Effaith a Chyrhaeddiad ar gyfer 2015-16 a'm Fframwaith ar gyfer Gweithredu, gan y gall y rhain ddarparu gwybodaeth gefndir ddefnyddiol i waith y Pwyllgor. Byddwch cystal â rhoi gwybod imi petaech yn hoffi cael trafodaeth bellach am unrhyw ran o'r gwaith rwyf wedi'i nodi yn y llythyr hwn wrth i waith cynllunio'r Pwyllgor fynd rhagddo.

Yn gywir,

Sarah Rochira

**Sarah Rochira**
**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**

Iechyd ar Waith
Cyrraedd y Nod
The Corporate Standard
Health at Work

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE